



# Pigion Penallta

Cyfrol 6

Haf 2020

## ***Cylchlythyr tymhorol am y bywyd gwylt ym Mharc Penallta***

Mae'n bosibl bod ein bywydau wedi cael eu troi wyneb i waered gan y pandemig COVID-19, ond mae'n fusnes fel arfer yn achos ein bywyd gwylt. Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae byd natur wedi blodeuo, ac mae llawer ohonom ni wedi cael mwy o amser i sylwi ar y byd o'n cwmpas. Rydw i wedi cael fy synnu gan y cyfoeth o fywyd gwylt sydd yn ein gerddi, ac rydw i wedi mwynhau cael cyfle i ddod i'w adnabod yn well.

Wrth i'r cyfyngiadau symud ddechrau, roedd y mamwenyn wrthi'n cychwyn ar eu cytrefi. Bydden nhw wedi dod o hyd i safle nythu addas sawl wythnos ynghynt, ac wedi dechrau dodwy wyau a chasglu paill i fwydo'r larfâu a oedd yn datblygu; a byddai'r larfâu hynny, yn fuan, yn troi'n swp cyntaf o weithwyr. Yn fuan, roedd y gweithwyr hynny'n suo o gwmpas yr ardd, gan fynd o flodyn i flodyn. Roedd yn amlwg bod pob rhywogaeth yn dewis planhigion gwahanol; roedd gwenyn yr ardd, gyda'u tafod hir, yn ffafrio blodau siglog troed y golomen, tra bo gwenyn cynnar, gyda'u tafod byr, wrth eu foddy gyda blodau bach creigafal. At ei gilydd, fe gyfrifais i chwe rhywogaeth gwenyn, yn ogystal â gwenyn mîl a nifer o wenyn unig i gyd yn dod i fy ngardd. Mae pob un yn dewis bwydo a nythu mewn gwahanol ffyrdd, felly, maen nhw'n gallu byw ochr yn ochr mewn cytgod cymharol â'i gilydd, a pheidio â chystadlu â'i gilydd.



Gwenyn yr ardd



Madfallod dŵr balfog

Roedd eistedd wrth y pwll, gyda phaned o de, yn gyfle i adnabod ychydig o breswylwyr eraill yr ardd. Roedd grifft y broga – a gafodd ei ddodwy fis ynghynt – wedi deor ac, erbyn hyn, roedd penbyliaid bach yn dechrau archwilio eu byd dyfrllyd. Fodd bynnag, roedd yn

---

ymddangos fel petai llai a llai ohonyn nhw bob tro roeddwn i'n edrych. Fe lwyddias i ddatgelu'r tramgwyddwyr drwy blymio rhwyd i'r pwll – madfallod dŵr balfog oedd yno, a llawer ohonyn nhw. Mae madfallod dŵr yn ysglyfaethwyr craff, gan fwyta unrhyw beth maen nhw'n gallu ei ddal; ac roedd penbyliaid yn bryd o fwyd rhwydd. Ond, er gwaethaf colled y brogaod, bu'r madfallod dŵr ar eu hennill, ac roedd yr holl fwyd llawn protein yn rhoi'r hwb egni roedd ei angen arnyn nhw i ddodwy eu hwyau eu hunain. Wrth wylion dawel, roedd yn bosibl gweld y benywod yn glynu'r wyau wrth ddail y dyfrllys, yna'n plygu'r dail yn ofalus i'w cuddio a'i diogelu rhag ysglyfaethwyr.

Er gwaethaf gorfol wynebu'r madfallod dŵr ysglyfaethus, rydw i'n siŵr y bydd rhai o'r penbyliaid yn cyrraedd eu llawn dwf, gan ymuno â'r dwsin neu fwy o frogaod sy'n stelcian yn y dŵr bas yn barod i lyncu pob mursen sy'n dod i'r amlwg!

Wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen, parhau i dyfu y gwnaeth y rhestr o adar roedd modd eu gweld (neu eu clywed) o gwmpas yr ardd. Daeth teithwyr o bell i ymuno â'r robin goch a'r fronfraith preswyl, wrth i wenoliaid, gwenoliaid y bondo, helygddrywod a gwenoliaid duon ddychwelyd ar ôl treulio'r gaeaf yn Affrica. Roedd hi hyd yn oed yn bosibl clywed y gwcw yn galw i fyny'r cwm – sef sŵn a fyddai, fel, arfer, yn cael ei foddi gan dwrw'r ceir yn y cefndir! Ond, yr ymwelwyr pluog mwyaf difyr, o bell ffordd, oedd y pâr o adar du a oedd wedi adeiladu nyth yn fy sied goed. Ar ôl pythefnos o eistedd ar wyau, deorodd y cywion ac aeth y ddau riant ati i gasglu bwyd ar eu cyfer nhw. Byddai'r rhieni'n clwydo ar gangen isel gyda phig yn llawn mwydod, gan wneud yn siŵr bod eu llwybr yn glir ac nad oedd ysglyfaethwyr o gwmpas, yna'n hedfan yn isel ar draws yr ardd ac i mewn i'r nyth. Ar ôl i'r cywion fagu plu, aeth y rhieni ati i adeiladu ail nyth ac, erbyn hyn, ar ddechrau mis Mehefin, maen nhw'n eistedd ar ail nythaid o wyau.



*Broga cyffredin*

Yn olaf, wrth i ni weithio ein ffordd allan o'r cyfyngiadau symud, yn ôl i Barc Penallta â ni amser llawn. Mae'r coed i gyd yn eu dail, mae'r dolydd yn eu blodau, ac mae'r llu o chwilog ac anifeiliaid bach sydd wedi ymgartrefu yn y parc yn mynd ynglŷn â'u pethau. Ni waeth beth sy'n digwydd yn ein bywydau, mae byd natur yn mynd yn ei flaen. Mae'r cyfan yn digwydd mewn amrantiad!



# Penallta Yafflings

Volume 6

Summer 2020

## *A seasonal newsletter about the wildlife at Parc Penallta*

---

Our lives may have been turned upside down by the Covid-19 pandemic but for our wildlife, it's business as usual. During lockdown, the natural world has burst into life and many of us have had more time to observe the world around us. I have been amazed at the wealth of wildlife found in our own gardens and have taken great pleasure in having the opportunity to get to know it better.

As lockdown began, the bumblebee queens were in the process of getting their colonies started. They would have found a suitable nest site several weeks earlier and begun egg laying and collecting pollen to feed to the developing larvae that would soon become the first batch of workers. Before long, those workers could be seen buzzing around the garden from flower to flower. It was noticeable how each species preferred different plants. The garden bees, with their long tongues favoured the nodding flowers of Columbine while the short tongued early bumblebee loved the tiny cotoneaster flowers. In all, I counted six species of bumblebee as well as honey bees and numerous solitary bees all visiting my garden. By each having different feeding and nesting preferences, they can live side by side in relative harmony and not outcompete with each other.



*Garden bumblebee feeding on columbine*



*Palmate newts*

Sitting by the pond with a cup of tea gave me the opportunity to get to know a few other garden residents. The frog spawn, laid a month before, had hatched and now tiny little tadpoles were beginning to explore their watery world. However, each time I looked there seemed to be fewer and fewer. A quick dip with the net soon revealed

---

the culprits, palmate newts, and lots of them. Newts are voracious predators, eating anything they can catch and tadpoles made an easy meal. But the frog's loss was the newt's gain, and all that protein rich food was giving them the energy boost they needed to lay their own eggs. Watching quietly you could see the females attaching their eggs to the leaves of pond weed and then carefully folding the leaf over to hide it and protect it from predators.

Despite having to run the gauntlet of predatory newts, I am certain a few of the tadpoles will make it to adulthood, joining the dozen or so frogs lurking in the shallows ready to gobble up all the emerging damselflies!

As the weeks rolled by, the list of birds that could be seen (or heard) around the garden continued to grow. The resident robin and song thrush

were joined by travellers from afar as one by one the swallows, house martins, willow warblers and swifts returned from spending the winter in Africa. Even the cuckoo could be heard calling from further up the valley, a sound usually drowned out by the background rumbling of car engines! But by far the most entertaining avian visitors were the pair of blackbirds who had built a nest in my wood store. After a couple of weeks of sitting on eggs, the chicks hatched and both parents busily set about collecting food for them. The adults would perch on a low branch with a beak full of worms, checking that the coast was clear and that there were no predators about before swooping low across the garden and into the nest. As soon as the two chicks fledged, the parents began work building a second nest and now, at the start of June, they are sitting on a second clutch of eggs.



Common frog

Finally, as we work our way out of lockdown, it's back to Parc Penallta full time. The trees are all in leaf, the meadows are flowering and the many bugs and beasties that call the park home are frantically going about their business. No matter what goes on in our lives, the natural world keeps on turning. Blink and you miss it!